Cyfarfod Blynyddol y Cyngor Cymuned , Mai 25 2017 yn Neuadd Santes Ursula

Presennol : Margaret Lewis, Morgan Morgans, Dai Jones, Fred Jones, Huw Griffith, Rowland Rees-Evans a'r clerc.

Ymddiheuriad : Lynn Davies.

Llongyfarchwyd Rowland Rees-Evans ar gael ei ail-ethol yn Gynghorydd Sirol.
Darllenwyd cofnodion cyfarfod bynyddol Mai 2016

Darllenwyd adroddiad yr archwiliwr mewnol. Gan bod y ffigurau i gyd yn foddhaol arwyddwyd y ffurflenni ariannol gan y cadeirydd a'r swyddog ariannol cyfrifol ac ardystiwyd copïau o'r dogfennau ychwanegol angenrheidiol yn barod i'w hanfon i'r archwilwyr allanol.
Wrth orffen ei thymor fel Cadeirydd, diolchodd Margaret Lewis i'w chyd-gynghorwyr am eu cefnogaeth ac i'r clerc am ei gwaith.

Cyn dechrau ar gyfarfod misol arferol y Cyngor arwyddwyd ffurflenni derbyn swydd gan y cynghorwyr a gafodd eu hethol yn ddiwrthwynebiad ar ôl etholiadau mis Mai 2017.
Penodwyd Fred Jones yn Gadeirydd a Huw Griffith yn Is-Gadeirydd, a Margaret Lewis fydd y Swyddog Ariannol Cyfrifol.

Gan fod un sedd wag ar y Cyngor rhoddwyd hysbysiad ar yr hysbysfwrdd yn gwahodd rhywun cymwys i lenwi'r sedd.

Diolchodd y Cadeirydd i'r cyn-gadeirydd am ei gwaith.

Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Ebrill ac arwyddwyd eu bod yn gywir.

Materion yn codi

Daeth gwybodaeth trwy e-bost fod y Cytundeb ynglŷn â Chronfa Gymunedol Llety'r Bugail yn barod ond nid yw'r copi papur wedi cyrraedd hyd yn hyn. Mae nhw hefyd eisiau anfoneb cyn medru talu'r arian.

Derbyniwyd adroddiad ar y cyfarfod i glercod yn Aberaeron a rhannwyd taflen polisi cyfryngau cymdeithasol.

Gohebiaeth

Derbyniwyd Clerks and councils Direct mis Mai, Cylchgrawn Chwarae dros Gymru a llyfryn Canllaw'r Cynghorydd Da, a phoster i'w arddangos oddi wrth Eluned Morgan.

Un Llais Cymru yn gofyn am gynrychiolydd ar Bwyllgor Ardal ond wnaeth neb gynnig ei hun.

Cyngor Sir yn gofyn am gynrychiolydd ar Gorff Llywodraethol Ysgol Llangwyryfon. Nid oedd un o'r Cynghorwyr yn barod i wneud y gwaith.

E-bost oddi wrth Anthony Barrett Archwilydd Cyffredinol Cynorthwyol Cymru ynglŷn â'r newidiadau yn y dull o archwilio ers 2015/16 a'r effaith ar ffioedd archwilwyr. Nododd eu bod yn canolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg. Rhoddwyd caniatâd i'r clerc i ysgrifennu at Anthony Barrett yn tynnu sylw at safon isel y cyfieithiad Cymraeg o'r ffurflenni oddi wrth Grant Thornton eleni

.

Cais Cynllunio. Adnewyddu ac estyniad i Rhos y Garreg. Datganodd Fred Jones ddiddordeb ac ni chymerodd ran yn y drafodaeth. Ni leisiwyd unrhyw wrthwynebiad i'r cais ac anfonwyd ateb i'r Cyngor Sir yn dweud hynny.

Cytunwyd i ofyn i'r Clwb Ffermwyr Ifanc dorri'r gwair yn y fynwent eleni eto.

Materion Ariannol

Cadarnhad fod £1900 o'r praesept a £600 grant mynwentydd wedi eu talu i'r banc.

Cadarnhad fod £8 08 ad-daliad TAW wedi ei dalu i'r banc.

Cyfrif Banc £2949.12. Cyfrif 2 ddim wedi newid £4476.48

Yswiriant – £336.94 i'w dalu i AON ar 1af Mehefin (£329.42 y llynedd). Tynnwyd sylw at rai datganiadau newydd yn y dogfennau ar gyfer eleni.
Certificate of Employers Liability Insurance wrth Aviva wedi ei dderbyn yn barod.
Awdurdodwyd talu'r yswiriant a £100 i Anthony Morgan.
Nid oedd unrhyw gostau ychwanegol annisgwyl fyddai'n effeithio ar y gyllideb.
Dyddiad y cyfarfod nesaf Mehefin 15